CYNGOR TREF PORTHMADOG

COPI DRAFFT

COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU EBRILL 27 2021

PRESENNOL :- Cynghorwyr :- Gwilym Jones (Cadeirydd). Selwyn Griffiths, Ian Jones, Jason Humphreys, Aled Griffith

1. Ymddiheuriadau :- Nia Jeffreys, Dr Simon Brooks

2. Llwybrau
Eglurodd y Clerc fel yr oedd wedi llythyru Cyngor Gwynedd ynglyn â Llwybr Peniel a Phenmount a'i bod yn dal i aros am ymateb ganddynt. Cynigiodd y Cyng Aled Griffith fod y Clerc yn holi Cyngor Gwynedd pam iddynt chwistrellu chwynladdwr mor ormodol ar lwybr y Cyt a llwybrau eraill Porthmadog gan iddo ladd llawer iawn o dyfiant naturiol.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl y cynnig, Cyng Ian Jones yn eilio.

3. Cae Bodawen
4. Bryn Coffa
5. Cae Pawb

Eglurodd y Cadeirydd fod y broses o gofrestru tiroedd Cyngor Tref Porthmadog yn mynd yn broses hirwyntog a chymhleth iawn. Mae'r mater yn parhau yn nwylo Cyfreithiwr Breese-Gwyndaf a Gethin Vaughan Jones, Syrfewr Stadau Cynorthwyol Cyngor Gwynedd ac mae'r Clerc yn parhau i aros am ddatrysiad i'r mater.

6. Llochesi Bws
Cafwyd cynnig gan y Cyng Selwyn Griffiths i'r Clerc holi am rhywun i lanhau'r lloches bws ger cae chwarae Morfa Bychan.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl y cynnig, Cyng Aled Griffith yn eilio.

7. Cerflun Mr. Maddocks
Dim byd i'w adrodd.

Marian Roberts
29.4.21